Cofnodion cyfarfod hybrid y **CYNGOR** a gynhaliwyd nos Fercher, 15 Ebrill 2026, yn dechrau am 6pm.

## PRESENNOL

Y Cynghorydd A. Walker (Maer)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, C. L. Jones, K. R. Jones, Mrs D. L. King, W. Price, Ms R. S. Roberts, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford a Miss C. L. Williams

Mrs H. J. Mead – Clerc y Dref
Mrs T. A. Jones – Dirprwy Glerc y Dref
Mrs R. A. Wheatley – Swyddog Cyfathrebu, Grantiau a Gweinyddol

## 173. DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr J. Kenney, Ms J. L. McAlpine a D. Simmons.

## 174. DATGAN BUDDIANNAU

Gofynnodd y Maer a oedd gan yr aelodau unrhyw fuddiant personol neu fuddiant personol ac sy'n rhagfarnu i'w datgan yng nghyswllt unrhyw eitem o fusnes i'w ystyried ar yr agenda.

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## 175. DATGANIAD SWYDD WAG CYNGHORYDD CYMUNED

Gwnaeth Clerc y Dref ddatgan yn ffurfiol swydd wag Cynghorydd Cymuned yn Ward Derwen, y Rhyl, a chynghorodd y byddai hysbysiad yn cael ei gyhoeddi yn gwahodd 10 etholwr i ofyn am gynnal etholiad.

Os na chyflawnir y gofyniad hwn, gellid llenwi'r swydd wag drwy gyfethol.

## 176. COFNODION

Cyfarfod y Cyngor - 18 Mawrth 2026 - Cofnodion rhifau 155 - 172

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. Walker ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James, a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 18 Mawrth 2026 - Cofnodion rhifau 38 - 41

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. Walker, a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

**177. CADETIAID ANRHYDEDD Y MAER**

Croesawodd y Maer Gadetiaid y Morlu Brenhinol, Ben Harley a Tommy Hopkins i'r cyfarfod, a diolchodd iddynt am eu hymrwymiad i'r rôl dros y 12 mis diwethaf.

Cyflwynodd y Maer lythyr cyflawniad i'r ddau.

**178. ADRODDIAD Y MAER**

Cyfeiriodd y Maer at yr adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) gan nodi ei fod wedi gorfod trosglwyddo holl wahoddiadau'r mis diwethaf i'r Dirprwy Faer.

Dywedodd y Dirprwy Faer fod pob un o'r digwyddiadau wedi bod yn bleserus.

**179. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU MIS MAI 2025 (ATODLEN A)**

Cyfeiriodd y Maer at adroddiad Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn nodi'r taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

| Taleb rhif: | Enw'r cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad y gwasanaethau a ddarparwyd |
|---|---|---|---|
| 2186 | BT | 87.06 | BT Neuadd y Dref – system rhentu ffonau |
| 2187 | BT | 378.00 | Gwasanaeth band eang Neuadd y Dref |
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| 2188 | BT | 414.65 | Canolfan Cymuned Ffordd Wellington – ffonau a ffioedd |
| 2189 | O2 | 52.20 | Llogi ffôn symudol |
| Amherthnasol | Tesco | 9.00 | Llogi ffôn symudol |
| 2192 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 9,059.37 | Tâl net i bedwar aelod o staff – mis Mawrth 2026 |
| 2190 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 3,455.74 | Talu wrth Ennill – mis Chwefror 2026 |
| 2191 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 3,280.52 | Cyfraniadau pensiwn – mis Chwefror 2026 |
| 2034 | Siop Cyngor am Fudd-daliadau | 1,255.83 | Swyddog Apeliadau Budd-daliadau – taliad 12 o 12 yn 2025/26 |
| 2033 | Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych | 2,000.00 | Swyddog Effeithlonrwydd Ynni – taliad 4 o 4 2025/26 |
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| 2199 | BT | 87.06 | BT Neuadd y Dref - system rhentu ffonau |
| | **Cyfanswm y taliadau** | **20,085.43** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm £ |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar y cyfrif hysbysiad 31 diwrnod | 169.53 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif Business Money Marker | 716.93 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 1 mis | 607.56 |
| | **Cyfanswm yr incwm** | **1494.02** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

**180. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Maer at Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (rhestr o daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

| Taleb | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ | |
|---|---|---|---|---|
| 2198 | Cyngor Sir Ddinbych | Atgyweirio goleuadau ar y coed | 2198 | £124.80 |
| 2205 | Argos | Oergell/rhewgell i'r swyddfa | 2205 | £343.95 |
| 2206 | Argos | Tegell a pheiriant rhwygo papur i'r swyddfa | 2206 | £87.99 |
| 2207 | Delwedd Ltd | Ffi parth y wefan | 2207 | £24.47 |
| 2208 | Sandra Williams | Gwasanaeth cyfieithu | 2208 | £303.52 |
| 2209 | Amazon | 4 teclyn codi uchder sgriniau cyfrifiadur i'r swyddfa | 2209 | £55.84 |
| 2210 | Amazon | Biniau sbwriel i'r swyddfa | 2210 | £35.76 |
| 2211 | Thomas Fattorini Ltd | Cadwyn y Maer (a archebwyd ym mis Chwefror 2026) | 2211 | £10,690.93 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | | **£11,667.26** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen i'w thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

**181. PERFFORMIAD BUDDSODDIADAU 2025/26**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei hadroddiad hir a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn cynghori mai cyfanswm y llog blynyddol a gafwyd o'r holl gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol hon oedd £15,233.16.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad, gyda diolch arbennig i'r Swyddog Cyllid.*

**182. DATGANIAD Y TALIADAU ARIAN MÂN: MIS EBRILL 2025 – MIS MAWRTH 2026**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei hadroddiad hir a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn cynghori mai cyfanswm y gwariant blynyddol o'r cyfrif arian mân yn ystod y flwyddyn ariannol o dan sylw oedd £54.81.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**183. Y CYFRIFON ARIANNOL – ALLDRO DARPARIAETHOL 2025/26**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei hadroddiad hir a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn gofyn i'r aelodau nodi'r amrywiaethau allweddol a ragfynegir, sef rhagolygon gwarged o £31,367 a throsglwyddo £7,000 i'r gronfa wrth gefn Etholiadau a £6,000 i'r gronfa wrth gefn Regalia Dinesig.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

**184. GWEFAN NEWYDD Y CYNGOR TREF**

Cynghorodd Clerc y Dref fod gwefan newydd y Cyngor Tref yn dod yn ei blaen yn dda a'i bod bron yn barod i'w lansio.

Cyflwynodd y Swyddog Cyfathrebu, Grantiau a Gweinyddol ragflas cryno i'r safle, a fyddai'n haws i ddefnyddwyr ei defnyddio gyda gwell hygyrchedd a map rhyngweithiol.

Roedd yr aelodau wedi'u plesio gyda'r wefan newydd a'r nodweddion newydd.

**185. Y GERDDI COFFA**

Cynghorodd Clerc y Dref, yn dilyn trwsio'r ddau olau diffygiol yn y gerddi'r gaeaf diwethaf, roedd adran Goleuadau Stryd Cyngor Sir Ddinbych wedi cynghori fod adnewyddu pob un o'r chwech golau.

Roedd y lampau'n hen ac yn drwm ac mewn perygl o fynd yn rhydd, a oedd yn creu risg iechyd a diogelwch i'r cyhoedd a swyddogion Goleuadau Stryd wrth wneud gwaith trwsio a chynnal a chadw.

Yn unol â Chytundeb Lefel Gwasanaeth y Cyngor Tref gyda Chyngor Sir Ddinbych, roedd yr adran Goleuadau Stryd wedi cyflwyno pris i gyflenwi a gosod goleuadau newydd - £3,972.78 a phaentio'r colofnau - £137.34.

Ychwanegodd Clerc y Dref, petai'r aelodau yn cymeradwyo'r taliad, byddai'n dod o gyllidebau'r Gerddi Coffa a Mannau Agored.

***PENDERFYNWYD****:*

*(i) cymeradwyo adnewyddu'r goleuadau a phaentio'r colofnau am gyfanswm o £4,796.82.*

*(ii) y byddai Clerc y Dref yn darparu delwedd o'r goleuadau i'r Cynghorwyr C. L. Jones a K. R. Jones i sicrhau y byddai'n golau'n cyfeirio at i lawr i leihau'r llygredd golau gymaint ag y bo modd, cyn bwrw ymlaen gyda'r gwaith.*

**186. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – GORCHYMYN RHEOLI TRAFFIG Y FFYRDD ARFAETHEDIG – RHODFA WESTBOURNE A FFYRDD CYSYLLTIEDIG**

Hysbysodd Clerc y Dref ei bod wedi derbyn y gorchymyn rheoli traffig y ffyrdd arfaethedig uchod (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) i'r aelodau ei ystyried.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y gorchymyn.*

**187. SESIWN HOLI AC ATEB**

Nid oedd unrhyw aelodau'r cyhoedd yn y cyfarfod.

**188. DIWEDD Y CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod, cyhoeddodd y Maer ddiwedd y cyfarfod.

Maer: ……..…………………..

Dyddiad: ……………….………..